CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **21 Ionawr 2025**

Teitl: **Adroddiad Terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel**

Pwrpas yr adroddiad: **Derbyn fersiwn terfynol yr Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel**

Er: **Gwybodaeth**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth

Cyflwyniad
Cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefn perfformiad newydd yn seiliedig ar Hunanasesu ar gyfer Prif Gynghorau. Rhan o'r drefn newydd yw'r ddyletswydd i gynnal Asesiad Perfformiad Panel unwaith ym mhob cylch etholiad.

Bwriedir i Asesiadau Perfformiad Panel roi persbectif annibynnol ac allanol o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

- ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- ei fod yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- mae ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Y nod yw cefnogi cynghorau i gyflawni eu dyheadau trwy ddatblygu dealltwriaeth o sut maent yn gweithredu a sut y gallant sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

Cynhelir yr Asesiad gan banel o gyfoedion hyfforddedig ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Cynhaliwyd Asesiad Perfformiad Panel cyntaf Ceredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref 2024.

Mae fersiwn terfynol yr Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel, sy'n cynnwys casgliadau ac argymhellion y Panel, bellach wedi'i dderbyn ac mae ynghlwm fel Atodiad 1. Cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi, fe'i gwiriwyd o ran cywirdeb ffeithiol gan y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Mae copi o'r adroddiad terfynol hefyd wedi'i anfon at y derbynwyr statudol, sef Llywodraeth Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru fel y nodir yn y Ddeddf.

Sefyllfa Bresennol

Bu'r Asesiad Perfformiad Panel yn llwyddiant i'r Cyngor ac adlewyrchir hyn ym mhrofiad cadarnhaol y Panel a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn ei hadroddiad terfynol.

Casgliadau cyffredinol y Panel yw:

- **Gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda.**
- **Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ar draws y weithrediaeth wleidyddol a swyddogion a'r strwythurau ehangach a bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol yng ngoleuni'r pwysau ariannol, strategol a gweithredol sylweddol y mae'r Cyngor yn delio â o ddydd i ddydd.**
- **Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol ar waith ond mae cyfle i gryfhau ymhellach y berthynas rhwng gweithrediaeth y Cyngor ac aelodau mainc gefn yn y prosesau gwneud penderfyniadau a'r blaenoriaethau y bydd angen i'r Cyngor eu cymryd wrth symud ymlaen.**
- **Mae'r Cyngor wedi sefydlu a datblygu meysydd arloesi gan gynnwys Canolfannau Lles, TGCh, a gweithio hybrid.**
- **Mae cyfleoedd ar gyfer gwella wedi'u nodi, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith, i gefnogi cyfathrebu effeithiol, rheoli perthnasoedd a pherchnogaeth gyfunol o heriau'r presennol a'r dyfodol.**

Yn ogystal ag asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion perfformiad Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae hefyd yn ofynnol i'r Panel nodi unrhyw argymhellion y gallai'r Cyngor eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni gofynion perfformiad y Ddeddf. Mae'r Panel wedi nodi'r wyth argymhelliad a ganlyn drwy gydol yr adroddiad:

1. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ymgynghori ar doriadau posibl yn y gyllideb o ystyried yr amserlen gul ar gyfer ymgynghori oherwydd y terfynau amser statudol ar gyfer pennu'r gyllideb.

2. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, a bydd angen iddo ystyried pa mor gynaliadwy yw hyn wrth symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol.

3. Dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth pellach.

4. Mae angen dybryd i'r Cyngor ailystyried a yw ei strategaeth bresennol ar gyfer recriwtio gwaith cymdeithasol yn effeithiol ac archwilio dewisiadau eraill.

5. Dylai'r Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â thema sy'n codi dro ar ôl tro o gyfathrebu aneffeithiol ar draws yr awdurdod yn enwedig gyda phartneriaid a thrigolion ac effeithiolrwydd "Clic".

6. Mae rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng aelodau'r meinciau cefn a'r timau gweithredol/uwch arweinyddiaeth y mae angen mynd i'r afael ag ef.

7. Mae angen datblygu'r berthynas rhwng y swyddogaeth graffu a'r weithrediaeth ymhellach.

8. Mae'r system rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ond mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

Camau nesaf

Bellach mae gan y Cyngor ofyniad statudol i ymgymryd â'r tasgau canlynol:

Gweithgaredd
Derbyniwyd yr Adroddiad terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel
Adroddiad terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel yn cael ei adrodd i'r Cabinet
Cyhoeddi'r Adroddiad terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel ar wefan y Cyngor
Y Swyddog Arweiniol ar gyfer pob un o argymhellion y Panel i ddarparu ymateb i bob argymhelliad
Ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel i'w ddrafftio gan y Tîm Perfformiad
Grŵp Arweiniol i gytuno'r ymateb drafft i'r Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel
Cyflwyno Adroddiad terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel a'r ymateb drafft iddo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu
Ymateb drafft ar yr Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel i'w ddiweddaru yn dilyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Ymateb drafft ar yr Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel i'w gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo
Ymateb Terfynol i'r Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel i'w gyhoeddi ar y wefan gyda copïau at Aelodau'r Panel, Gweinidogion, AGC, Estyn, Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ymateb i'r Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na, nid yw'r Asesiad Perfformiad Panel yn cyflwyno unrhyw bolisïau na strategaethau newydd.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
1. **Bod y Cabinet yn derbyn Adroddiad terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel.**
2. **Bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad cadarnhaol a phrif gasgliad y Panel sef 'Gan ystyried y galwadau uchel presennol ar wasanaethau a'r pwysau ariannol heriol iawn, mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol sy'n cael ei redeg yn dda".**

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Trosolwg a Chraffu:
Amh. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl statudol i dderbyn yr Adroddiad terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel ac adolygu a gwneud argymhellion ar ymateb y Cyngor i'r Adroddiad pan fydd ar gael.

Fframwaith Polisi:
Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Y cyfan, mae Asesiad Perfformiad Panel yn edrych ar berfformiad cyffredinol y Cyngor.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Dim

Goblygiadau cyfreithiol:
Mae gan y Cyngor ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gynnal Asesiad Perfformiad Panel o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol.

Goblygiadau staffio:
Cefnogwyd y Panel gan Thîm Perfformiad y Cyngor wrth baratoi, yn ystod ac ar ôl yr Asesiad.

Goblygiadau eiddo / asedau:
Amherthnasol

Risg(iau):
Nid yw'r Adroddiad terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel yn cael ei gyhoeddi gan y Cyngor sy'n arwain at fethiant i gydymffurfio â deddfwriaeth (Rhan 6 o Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021).

Pwerau Statudol:
Amherthnasol

Papurau Cefndir:
Amherthnasol

Atodiadau:
Atodiad 1 – Adroddiad Terfynol ar yr Asesiad Perfformiad Panel

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Swyddog Adrodd:
Rob Starr (Tîm Perfformiad ac Ymchwil)

Dyddiad:
14 Ionawr 2025

Cyngor Sir Ceredigion
Asesiad Perfformiad Panel

Hydref 2024

1.0 Cyflwyniad a chefndir

1.1 Yn unol â'r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir Ceredigion Asesiad Perfformiad Panel (APP) trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod, a ddaeth i ben ar 3 Hydref 2024 â chyflwyniad o adborth i'r Cyngor yn egluro'r prif ganfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad ar sail y ddogfen gwmpasu roedd y Cyngor wedi cytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a oedd wedi'i datblygu gyda'r sector. Mae methodoleg APP CLlLC yn darparu fframwaith cyffredinol: nid yw pob trywydd holi wedi'u pennu'n bendant, ond yn hytrach yn rhoi arweiniad i'r Panel ar y meysydd a allai gael eu harchwilio i fodloni'r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai'r graddau y mae'r Panel yn archwilio'r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor, ond yn ddigonol i'r Panel allu dod i ryw gasgliad.

1.4 Yn unol â'r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw'r APP ac nid yw'n ceisio ailadrodd y gwaith sy'n cael ei wneud gan rheoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y Panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trwyadl a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Wrth baratoi at yr APP, fe wnaeth y Cyngor fesur cwmpas eu hanghenion er mwyn sicrhau'r gwerth a'r effaith fwyaf i'r asesiad ar gyfer y Cyngor. Mae'r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i'w gweld ym mharagraff 3.2.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o ganfyddiadau'r Panel.

2.0 Panel

2.1 Comisiynwyd y cyfoedion canlynol gan CLlLC i gynnal yr asesiad. Cafodd y detholiad o gyfoedion ei gytuno yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Steve Phillips, Ymgynghorydd Rheoli a chyn Brif Weithredwr Cyngor Castell-nedd Port Talbot.
- Uwch Aelod Etholedig: Y Cynghorydd Robin Wyn Williams, Dirprwy Arweinydd (Ynys Môn). Portffolio: Dirprwy Arweinydd a Chyllid.
- Uwch Swyddog Llywodraeth Leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd: Jenny Williams, Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Conwy.
- Cymar o'r Sectorau Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol ehangach: Nesta McCluskey, Cyfarwyddwr Clinigol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ysbyty Maelor yn Wrecsam.

2.2 Cefnogwyd y Panel gan Cerith Thomas (Swyddog Gwella) ac Emily Griffiths (Uwch Swyddog Cymorth) o Dîm Gwella CLlLC.

3.0 Cwmpas a Dull

3.1 Roedd gofyn i'r Panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- Â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau'r uchod.

3.2 Nododd y Cyngor y meysydd ychwanegol canlynol y byddai barn Cyfoedion arnynt yn werthfawr fel rhan o'r asesiad:

- Cyllid ac Adnoddau
- Rheoli Cyfalaf ac Asedau
- Arloesi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Cyngor gyda phwyslais penodol ar:
  - Ffyrdd Newydd o Weithio
  - Sefydlu Canolfannau Lles.

3.3 Wrth gynnal yr asesiad, fe wnaeth y Panel gynnal adolygiad desg o ddogfennau, data, adroddiadau allanol, a gwybodaeth berthnasol arall gan y Cyngor. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r rhanddeiliaid canlynol fel rhan o'r camau adolygiad ar safle:

- Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet
- Aelodau etholedig
- Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol
- Swyddogion Arweiniol Corfforaethol
- Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau
- Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol
- Cyfarwyddwr Ceredigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed Powys
- Prif Arolygydd Heddlu Dyfed Powys
- Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phrif Weithredwr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys – Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru
- Dirprwy Brif Swyddog Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Prifysgol Aberystwyth
- Profost Campws Llanbedr Pont Steffan, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin
- Grŵp ffocws staff

- Undeb Llafur - UNSAIN
- Grwpiau bwyd lleol
- Cyngor ar Bopeth
- Aelodau o'r Gymuned Busnes
- Aelod Fforwm Dyfodol Dwyieithog
- Cynrychiolwyr Fforwm Ieuenctid
- Cynrychiolwyr Grŵp LHDTC+
- Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan – Ymweliad cymheiriaid
- Cartref gofal preswyl i oedolion Hafan-y-Waun– Ymweliad cymheiriaid
- Canolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa – Ymweliad cymheiriaid

Crynodeb Gweithredol

4.0 Casgliad Cyffredinol

4.1 Daeth y Panel i'r casgliad bod Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod lleol wedi'i redeg yn dda, o ystyried y galw uchel ar wasanaethau ar hyn o bryd a'r pwysau ariannol heriol iawn.

4.2 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth glir ac effeithiol gyda pherthnasoedd cryf ar draws y weithrediaeth wleidyddol a swyddogion a strwythurau ehangach a bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol yn sgil y pwysau ariannol, strategol a gweithredol sylweddol mae'r Cyngor yn delio â nhw bob dydd.

4.3 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu ac adrodd effeithiol ar waith. Er mwyn sicrhau hyfywedd parhaus y Cyngor ac i sicrhau ei ymreolaeth a'i hunaniaeth i'r dyfodol, mae angen sicrhau cynnydd o ran consensws ar draws siambr y Cyngor drwy wella dealltwriaeth ac ymgysylltu â phob aelod etholedig ynghylch ehangder a realiti yr heriau ariannol y mae Ceredigion yn eu hwynebu.

4.4 Mae gan y Cyngor feysydd arloesi wedi'u sefydlu ac sy'n datblygu gan gynnwys Canolfannau Lles, TGCh, gweithio hybrid ac mae'r rhain wedi'u cwmpasu yn yr adroddiad dan adran 10.

4.5 Mae cyfleoedd am welliant wedi'u nodi, a fydd yn gwella'r trefniadau sydd ar waith er mwyn cefnogi cyfathrebu effeithiol, rheoli perthnasoedd a pherchnogaeth ar y cyd o ran heriau presennol a heriau'r dyfodol. Mae'r cyfleoedd am welliant wedi'u cynnwys mewn blychau testun dan adrannau perthnasol yr adroddiad.

5.0 Cyd-destun lleol

5.1 Mae Sir Ceredigion yng ngorllewin Cymru, yn gorchuddio ardal o 1,900km². Mae'n ffinio â Gwynedd i'r gogledd, Powys i'r dwyrain, Sir Gaerfyrddin, a Sir Benfro i'r de. I'r gorllewin mae ganddi 80km o arfordir ar Fae Ceredigion.

5.2 Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi sawl ardal wledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi yn y diwydiant twristiaeth (12.9%), cyfanwerthu a manwerthu (12.9%) a gweithgareddau iechyd pobol a gwaith cymdeithasol dynol (12.3%). Addysg yw'r sector mwyaf o fewn y sir, sy'n cyflogi tua 4,300 o bobl ac yn cyfrif am oddeutu 13.9% o swyddi'r sir.

5.3 Yn wahanol i ardaloedd gwledig ac arfordirol eraill, mae gan Geredigion ddwy Brifysgol – un yn Aberystwyth a Champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, gyda chyfanswm cyfunol o 8,350 o fyfyrwyr rhwng y ddwy. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'i lleoli yn Aberystwyth.

5.4 Yn yr etholiadau lleol diwethaf ym mis Mai 2022, fe bleidleisiodd preswylwyr Ceredigion dros 38 Cynghorwyr gynghorwyr mewn 34 ward ledled y Sir. Plaid Cymru sydd a'r fwyafrif yn y weinyddiaeth bresennol gyda 21 cynghorydd, mae 9 aelod gan y grŵp annibynnol (8 yn annibynnol ac 1 Gwlad), 7 Democrat Rhyddfrydol Cymru ac 1 aelod annibynnol nad yw'n perthyn i grŵp. Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies.

5.5 Mae sawl newid i aelodaeth y Grwp Arweiniol wedi bod yn ddiweddar oherwydd cyfuniad o bobl yn ymddeol a rhywfaint o ailstrwythuro gwasanaethau.

6.0 Cryfderau a meysydd arloesi

6.1 Nododd y Panel sawl maes cryfder ar draws y Cyngor a'i weinyddiaeth. Ymysg y rheini:

6.2 Mae'r Cyngor yn dra ymwybodol o'r elfennau sy'n arwain at ddiboblogi mewn ardal wledig ac effaith hyn ar yr ardal o ran ei heconomi, gweithlu, galw am ei wasanaethau, ei ddiwylliant, a'i hiaith a demograffeg y sir.

6.3 Mae gan y Cyngor berthnasoedd gwaith da gydag awdurdodau lleol cyfagos, yn enwedig gyda Phowys ac i raddau llai gyda Sir Gâr a Sir Benfro.

6.4 Mae'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau hyd yn yma. Mae cysylltiad clir rhwng y strategaeth gorfforaethol ac adnoddau ariannol.

6.5 Mae'r Cyngor wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol i ddarparu gofal cymdeithasol, ond bydd angen iddo ystyried pa mor gynaliadwy yw hyn wrth symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol posib.

6.6 Mae enghreifftiau cadarnhaol lle mae'r Cyngor wedi dangos arloesedd ac arferion da i wneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Aeth y Cyfoedion i ymweld â Chanolfan Les y Cyngor yn Llanbedr Pont Steffan ac roeddent wedi'u plesio'n fawr iawn gan y cyfleuster, ei nod yw cynnwys gwasanaethau sy'n ystyried a gwella agweddau lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol unigolyn. Nododd y Cyfoedion hefyd fod rhai o'r buddion o strategaethau rheoli asedau yn cael eu cyflawni, er enghraifft Cartref Gofal Preswyl i oedolion gyda gofal personol yn Hafan-y-Waun, a Chanolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa. Mae rhagor o fanylion am bob un o'r enghreifftiau hyn wedi'u nodi yn adran 10.4.

6.7 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol yn cynnwys:

- Perthnasoedd gwaith da rhwng Aelodau weithrediaeth ac Uwch Swyddogion.
- Arweinyddiaeth gref ar lefel Aelodau ac Uwch Swyddogion.
- Gwasanaethau Democrataidd effeithiol a threfniadau archwilio mewnol gan gynnwys cefnogaeth dda gan swyddogion.

6.8 Nododd y Panel fod y Cyngor wedi ymgynghori ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ac yna ym mis Mawrth 2024, cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet gan gynnwys y camau i'w gyflawni. Roedd y broses ei hun yn cydnabod, er bod yr Amcanion Cydraddoldeb yn parhau i fod yn ddilys, bod angen adolygu'r camau gweithredu er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd. Mae'r Panel yn pwysleisio pwysigrwydd adolygiadau rheolaidd o'r camau penodol a gymerwyd gan y Cyngor i gyflawni'r canlyniadau cydraddoldeb a ddymunir. Mae'r adolygiadau hyn yn hanfodol i sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb yn parhau i fod yn briodol, yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion esblygol y Cyngor a'r gymuned.

7.0 Heriau Cenedlaethol a Lleol

7.1 Fel awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, mae Cyngor Ceredigion yn wynebu pwysau ariannol anodd bob dydd, yn enwedig trwy wasanaethau a gaiff eu harwain gan alw. Gwelwyd amrywiadau sylweddol mewn amgylchiadau 2023/24 oherwydd Dyfarniadau Cyflog uchel, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol gan gynnwys lleoliadau plant y tu allan i'r sir, gofynion cynyddol mewn gwahanol feysydd a phwysau o ran costau staff asiantaeth - a chafodd pob un ohonynt eu gwrthbwyso i raddau helaeth yn ystod y flwyddyn drwy arbedion Rheoli Trysorlys a rheoli cyllideb effeithiol, gan arwain at orwariant bach iawn o £10k.

7.2 Mae'r Cyngor wedi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion o tua £7.3m (sef £5.8m o Arbedion i'r Gyllideb a £1.5m o ran capio'r cynnydd i'r Gyllideb Ysgolion Ddirprwyedig ar 3.1%) tra'n rheoli'r galw presennol. Yn ystod chwarter un, roedd y Cyngor yn wynebu pwysau o fewn y flwyddyn o £101k, nad yw'n cynnwys rhai o'r risgiau sy'n cael eu rheoli o ran cyflawni Arbedion i'r Gyllideb. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor 2023 dros dair blynedd yn nodi pwysau cyllidebol o tua £36.4m hyd at flwyddyn 2026/27. Yn dilyn y cynnydd a dybir yn Nhreth y Cyngor, grantiau penodol a setliad Llywodraeth Cymru, gostyngodd y ffigwr hwn i bwysau o £11.9m dros y 3 blynedd nesaf, sy'n her sylweddol i'r Cyngor ei rheoli. Diweddarwyd y SATC gan y Cyngor yn ddiweddar (24/10/24) gan ddangos pwysau cyllidebol o £28.3m a diffyg net o £14.3m yn y gyllideb dros y 3 blynedd nesaf hyd at 2027/28.

7.3 Dywedwyd wrth y Panel bod yr Aelodau a'r swyddogion yn aml yn teimlo rwystredigaeth yn sgil pa mor anodd yw cael Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i werthfawrogi cyd-destun gwahanol heriau gwledig. Roedd ymdeimlad o "*bolisïau trefol wedi eu gosod ar Geredigion wledig*" a darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r ddadl hon e.e. y rhaglen Dechrau'n Deg. Clywodd y Panel farn gyson bod rhaid i rywbeth newid os oedd Llywodraeth Cymru am gefnogi ardaloedd gwledig a threfol yn gyfartal.

7.4 Mae gan Geredigion boblogaeth o 71,466 - yr ail sir deneuaf ei phoblogaeth yng Nghymru. Mae'n boblogaeth sy'n gostwng ac yn heneiddio yn gyffredinol. Mae disgwyliad oes poblogaeth yr ardal yn uwch o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru ac mae pobl hŷn o wahanol rannau o'r DU yn ymddeol i Geredigion, sy'n creu heriau ariannol a gweithredol penodol i'r Cyngor.

7.5 Mae'r grŵp oedran dros 65 oed yn cyfrif am 25.6% o'i boblogaeth ac mae disgwyl i'r gyfran gynyddu i 30.2% erbyn 2031, a fydd yn creu heriau i ddarparu gwasanaethau fel rhai iechyd, gofal cymdeithasol ac anghenion tai. Yn gyferbyniad i hynny, mae disgwyl i'r boblogaeth o bobl oed gwaith (16-64) ostwng 8.2% erbyn 2039.

7.6 Mae poblogaeth iau Ceredigion wedi gostwng ac maent yn gadael yr ardal ar drywydd cyfleoedd addysg uwch, gyrfa a chyfleoedd cymdeithasol a chyflogau uwch. Mae hyn er gwaetha hanes llwyddiannus y Cyngor o sicrhau gwasanaethau addysg sefydlog o ansawdd uchel dros gyfnod estynedig. Daeth adroddiad diweddar gan Estyn ym mis Mehefin 2024 i'r casgliad bod gan yr Awdurdod hanes da o gynnal a gwella'r ddarpariaeth a sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc Ceredigion. Nododd y Panel fod cysylltedd a sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yn ffactorau allweddol i gadw pobl ifanc yng Ngheredigion. Er mwyn i'r economi leol ffynnu, mae'r Cyngor wedi dweud bod angen lleihau'r duedd bresennol o bobl ifanc yn gadael yr ardal a chadw a denu pobl fedrus trwy greu cyfleoedd newydd am waith uchel ei werth.

7.7 Mae'r Panel yn ymwybodol bod heriau amlwg iawn i recriwtio a chadw staff ar draws sector cyhoeddus y DU, a hynny mewn nifer o alwedigaethau, yn cynnwys y rheini sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Roedd y Panel yn cydnabod bod y Cyngor yn wynebu heriau ychwanegol ynghlwm â recriwtio staff. Roedd natur wledig a phellennig y sir yn golygu nad oedd gan y Cyngor yr un cyfle i ddenu staff, mewn byd cystadleuol, ar yr un raddfa â Chynghorau eraill a oedd yn elwa o well isadeiledd ffyrdd a chludiant.

7.8 Mae nifer o swyddi y mae'n gyson anodd recriwtio iddynt yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol cofrestredig, therapyddion galwedigaethol, datblygwyr, peirianwyr, cynllunwyr, technegwyr fflyd ac ymgynghorwyr hyfforddiant galwedigaethol. Deallodd y Panel bod staff asiantaeth gweithwyr cymdeithasol yn teithio o gyn belled â Manceinion i Geredigion. Deallodd y Panel hefyd fod graddfeydd cyflog ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn is o'i gymharu â Chynghorau eraill.

Trosolwg o'r Canfyddiadau

8.0 Cyllid ac adnoddau

8.1 Mae'r Cyngor wedi nodi ei heriau ariannol ei hun ac yn ystyried ei fod dan anfantais yn sgil rhai elfennau o'r fformiwla ariannu, prosesau adrodd ariannol a gweithredu trefniadau cyllid gwaelodol yn anghyson. Roedd y Panel yn cydnabod y sefyllfa hon a Chynghorau eraill sydd mewn sefyllfa debyg ar draws Cymru.

8.2 Mae'r ddogfen gwmpasu APP yn cyfeirio at ostyngiad amcangyfrifedig o 2.3% ym mhoblogaeth Ceredigion erbyn 2039. Mae hynny'n seiliedig ar boblogaeth ardal o 71,475, yng nghyfrifiad 2021. Nodir fod poblogaeth canol blwyddyn 2022 yn amcangyfrif y gallai'r gostyngiad hwn fod yn llai na'r disgwyl.

8.3 Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn wynebu heriau ariannol, ac mae hyn yn cael ei amlygu gan y Cyngor fel ei her fwyaf un. Mae'r Cyngor yn credu bod yr heriau hyn yn waeth yn ei ardal oherwydd:

- Ei natur wledig.
- Penderfyniadau polisi gan Lywodraethau'r DU a Chymru.
- Mwy o alw am wasanaethau (yn enwedig gofal cymdeithasol).
- Dyfarniadau cyflog staff.
- Poblogaeth gyffredinol sy'n gostwng (yn cynnwys poblogaeth sy'n heneiddio (65 a hyn), poblogaeth oed Gwaith yn lleihau (16-64) a niferoedd y disgyblion yn lleihau).

8.4 Mae gan y Cyngor gynllun ar gyfer y gweithlu i fynd i'r afael â phroblemau ynghlwm â recriwtio, chadw staff a chynllunio olyniaeth effeithiol. Mae proffil oedran presennol gweithlu'r cyngor yn dangos bod 46% dros 50 mlwydd oed.

8.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd ganddo'r cyllid tymor canolig sydd ei angen i gynnal ei hun yn ei ffurf bresennol ac efallai y bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau anoddach oherwydd y pwysau ariannol tebygol. Mae tystiolaeth gref bod y Cyngor yn barod i fynd i'r afael â materion dadleuol yn hyn o beth.

8.6 Mae'r Grŵp Arweiniol wedi defnyddio dull corfforaethol ar y cyd i ddrafftio dewisiadau ar gyfer y gyllideb i roi ystyriaeth wleidyddol ehangach iddynt.

8.7 Mae gan y Cyngor hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys, ac mae ar hyn o bryd mewn sefyllfa gadarn ariannol.

8.8 Nododd y Panel fod cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2022/23 wedi cael eu harchwilio a dyfarnwyd barn archwilio ddiamod ym mis Chwefror 2024 gan Archwilio Cymru.

8.9 Mae disgwyl setliad dros dro cyllideb refeniw a chyfalaf llywodraeth leol ym mis Tachwedd yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Dilynir hynny gan gyfnod ymgynghori statudol cyn y bydd y Cyngor yn gwybod ei setliad cyllideb terfynol. Er ei fod y tu hwnt i'w reolaeth i raddau helaeth, mae'r awdurdod yn ystyried goblygiadau ei broses o osod cyllideb gan y rhagwelir y bydd yn derbyn llai o gyllid nag a feddyliwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, fel sy'n debygol.

8.10 Mae'r Panel yn cydnabod y bydd hyn yn berthnasol i bob Cyngor yng Nghymru. Fodd bynnag, i gydnabod yr heriau o ran cyfathrebu effeithiol ac ymgynghoriad ystyrlon a nodwyd yn adran 9 a pherchnogaeth Cyngor cyfan ar lefel wleidyddol yr her ariannol, mae cyfle i gymryd camau ar unwaith er mwyn cael cyllideb glir wedi'i chefnogi ar gyfer 2025/26. Gallai hyn gynnwys ystyriaethau cynnar o ran sut y dylai'r Cyngor ymateb i'r pwysau ariannol a ragwelir yn fewnol, ar lefel Aelodau a Swyddogion ac yn allanol, er mwyn sicrhau perchnogaeth gyfunol o'r broses.

1.	**Bydd angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o ymgynghori am doriadau posibl i'r gyllideb o ystyried yr amserlen dynn i ymgynghori oherwydd y terfynau amser statudol i osod y gyllideb.** Ar ôl gweithio'n fewnol, yn wleidyddol a phroffesiynol i nodi amrywiaeth o ddewisiadau posibl ar gyfer arbedion cyllidebol yn seiliedig ar bwysau ariannol a ragwelir i'r Cyngor, gellid rhoi ystyriaeth i ymgynghoriad cyhoeddus cynnar ar yr amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer arbedion cyllidebol.

9.0 Rheoli Cyfalaf ac Asedau.

9.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod heriau mewn perthynas a sut mae'n cynnal ei bortffolio eiddo ac yn ad-drefnu asedau o ystyried y pwysau ariannol.

9.2 Roedd y Panel yn cydnabod dyfnder y teimladau cryf o fewn y Cyngor ac ym marn y cyhoedd pan oedd cyfleusterau naill ai ar gau neu eu hadleoli. Roedd ymdeimlad gan fudd-ddeiliaid o 'fait accompli'. Nododd y Panel hyn mewn perthynas a'r adleoli'r llyfrgell o adeilad yng nghanol Aberaeron i Benmorfa; y cynnig i gau 4 ysgol wledig oedd a niferoedd isel a'r cynnig i gau'r cyfleuster ysbyty a 9 gwely yn Nhregaron (er mai penderfyniad Bwrdd Iechyd lleol oedd hwn, byddai'n effeithio ar weithio mewn partneriaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor), a'r ymgynghoriad cyhoeddus am symud y llyfrgell yn Llanbedr Pont Steffan (os cynigir y symudiad i'w gymeradwyo).

9.3 Roedd pwysigrwydd ymgynghori ystyrlon ac yn bwysicach fyth, cyfathrebu'n effeithiol yn amlwg er mwyn i drigolion ddeall pam roedd y newidiadau'n cael eu hystyried ac er mwyn iddynt deimlo'n rhan o'r broses. Mae hyn yn debygol o fod yn fwy pwysig i bob Cyngor wrth i'r rhagolygon ariannol droi'n fwy heriol. Mae'r Panel yn ymwybodol bod gan y Cyngor dîm cyfathrebu bach o 3 pherson, a bydd yn her ymateb i faterion sy'n codi ynghlwm a phwysau ariannol.

10.0 Arloesi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Cyngor.

Ffyrdd Newydd o Weithio

10.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn arloesol yn ei ymdriniaeth a Ffyrdd Newydd o Weithio a chlywodd y Panel dystiolaeth bod ei ymdriniaeth a TGCh, rheoli asedau a gweithio'n hybrid wedi bod yn effeithiol. Mae'r meysydd hyn yn parhau i fod yn rhai i weithio arnynt ond mae tystiolaeth eisoes bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni.

10.2 Mae gweithio'n hybrid wedi'i dderbyn a'i groesawu gan staff ac nid oes unrhyw ddisgwyl iddynt i ddod i'r swyddfa ar ddiwrnodau penodol. Roedd rhywfaint o adborth bod mwy o weithio o bell yn effeithio ar y gallu i feithrin perthnasoedd. Mae'r gwaith o gyflwyno band eang ffeibr llawn a band eang cyflym iawn wedi bod yn drawiadol ac mae'r cysylltiad wedi ei wneud yn ddewis ymarferol i weithlu'r Cyngor a defnyddwyr ei wasanaethau. Mae'r Panel yn cydnabod nad oes band eang i 100% o'r boblogaeth ac mae rhai trigolion mewn ardaloedd mwy gwledig eto i gael eu cysylltu.

10.3 Yn yr un modd mae gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a phwyllgorau cynllunio yn fyw wedi gwneud mynediad at brosesau democrataidd yn fwy tryloyw a hygyrch.

Canolfannau Lles

10.4 Fe wnaeth y Cyfoedion hefyd ymweld â thri o gyfleusterau ac roeddent wedi'u plesio'n fawr gan yr hyn a welsant gan y Cyngor yn:

- **Hafan-y-Waun** – Cartref gofal preswyl i oedolion gyda gofal personol. Cyfleuster gofal 90 gwely sy'n cynnig lleoliadau tymor byr, dros dro, parhaol a seibiant. Mae'r Cyngor wedi cymryd rheolaeth ohono'n ddiweddar gan ddarparwr gofal preifat. Nod y cartref gofal yw gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gefnogi rhyddhau cleifion a byrhau eu cyfnod yn yr ysbyty. Fel enghraifft o'r gwaith partneriaeth, roedd menter "Y Bwa- Hafan-y-Waun," yn fesur dros dro i letya cleifion a ddadleolwyd yn dilyn cau ward yn Ysbyty Bronglais tra'n gwneud gwaith atgyweirio brys i'r to. Fe wnaeth yr Uwch Gyfoed oedd yn swyddog ymweld â'r ganolfan ac roedd wedi'i phlesio'n fawr gan y cyfleuster o ran sut yr oedd yn perfformio o ran arweinyddiaeth effeithiol; rheolwr a dirprwy gwybodus ac angerddol; amgylchedd ffisegol yr adeilad a'i gyfleusterau, lles y preswylwyr a lefel y gofal a'r gefnogaeth maen nhw'n eu cael. Roedd hynny yn unol â chanfyddiadau arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Medi 2024.
- **Penmorfa** - Canolfan ar gyfer Byw'n Annibynnol – Y weledigaeth ar gyfer y ganolfan yw galluogi unigolion i fyw'n annibynnol gartref am fwy o amser. Ymrwymir i gynnig datrysiadau ymarferol i bob grŵp oedran, megis mesurau iechyd ataliol, gwasanaethau rhagnodi cymdeithasol a strategaethau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd hirdymor trwy sicrhau nad yw pobl yn gwaethygu i'r fath sefyllfa lle bod angen pecynnau gofal drud. Roedd y Cyfoedion wedi'u plesio gan y cyfleuster, yn cynnwys defnyddio technoleg mewn partneriaeth â busnesau lleol ac yng nghyd-destun gwasanaethau lleol.
- **Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan** – Fe wnaeth dau o'r Cyfoedion ymweld a'r Ganolfan Lles yn Llanbedr Pont Steffan ac roeddent wedi'u plesio'n fawr iawn gan y cyfleuster a ffocws y strategaeth ar iechyd a lles y boblogaeth. Roedd y Cyfoedion yn teimlo'n galonogol o weld yr ethos o uwchsgilio a dyrchafu staff oddi mewn i'r gymuned leol. Roedd adborth cadarnhaol a gwerthfawr gan y staff a defnyddwyr y ganolfan.

10.5 Mae'r Panel yn ystyried bod y Ganolfan Lles yn arloesol a dylai'r Cyngor deimlo'n galonogol ynglŷn â hyn wrth gyflwyno dwy Ganolfan Lles arall yng ngogledd a de'r sir. Yn hytrach na dibynnu ar atgyfeiriadau meddygon teulu yn unig, bydd Canolfannau Lles yn datblygu i fynd i'r afael yn rhagweithiol ag anghenion pobl sy'n

agored i niwed trwy gymorth wedi'i dargedu a mesurau ataliol. Byddant yn ymgorffori gwasanaethau iechyd a lles gydol oes, gan gynnwys, cymorth iechyd meddwl, cyngor ar sgiliau a chyflogaeth, caledi a chymorth tai, gwasanaethau i bobl ifanc a chymorth i ofalwyr yn ogystal â chyfleusterau a ddarperir gan y cynnig hamdden traddodiadol. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu mwy o fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i breswylwyr am holl wasanaethau'r Cyngor. Nod y Cyngor, trwy ddarparu'r gwasanaethau hyn i breswylwyr yn eu cymunedau, yw sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth cyn gynted ag sy'n bosibl, a fydd yn atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i'r gwasanaethau statudol.

10.6 Roedd y Panel wedi'u plesio gan ddull y Cyngor yn y cyfleusterau hyn o ystyried yr hinsawdd ariannol heriol. Mae'r Panel yn cydnabod bod gallu'r Cyngor i barhau i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn debygol o fynd yn anoddach.

2.	**Mae'r Cyngor, hyd yma wedi gallu darparu cyllid ychwanegol sylweddol i ddarparu gofal cymdeithasol, a bydd angen iddo ystyried pa mor gynaliadwy yw hyn wrth symud ymlaen o ystyried y pwysau ariannol.**

11.0 I ba raddau y mae'r cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol.

11.1 Mae tystiolaeth gref bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Roedd y Panel yn gallu gweld y dystiolaeth o hyn o nifer o ffynonellau yn cynnwys cyfweliadau ar y safle, grwpiau ffocws ac adroddiadau rheoleiddwyr gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiad yr Arolwg Estyn yn ddiweddar. Wrth wneud hynny, nododd y Panel y lefel gyson o berfformiad oedd wedi'i chyrraedd yn y blynyddoedd blaenorol.

11.2 Mae gan y Cyngor drefniadau gwaith rhagorol gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, y gymuned fusnes ac eraill. O drafod gyda nhw, roedd y partneriaid o'r un farn.

11.3 Mae'r Panel yn cydnabod gwaith cadarnhaol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a'r gwahanol feysydd gwaith sy'n cael eu gwneud yn rhanbarthol sy'n cefnogi datblygiadau yng Ngheredigion, megis y rhaglenni cyfalaf rhanbarthol gan gynnwys, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ail-gydbwyso'r Gronfa Gyfalaf, y Gronfa Tai â Gofal ac aliniad rhanbarthol storfeydd offer cymunedol. Mae nifer o gynlluniau partneriaeth ar waith ac mae eraill yn cael eu cynllunio gyda defnydd BIP Hywel Dda o'r Bwa yn Hafan-y-Waun a Chanolfan Rheidol, datblygiad y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol gydag Iechyd a Heddlu Dyfed-Powys, a gwaith partneriaeth cryf mewn perthynas â Oedi yn achos Llwybrau Gofal a chefnogi'r system gofal cymunedol y sir yn ei chyfanrwydd.

11.4 Cyfeiriwyd sawl gwaith at y llinellau cyfathrebu uniongyrchol gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr a oedd yn cael eu gweld fel rhywbeth oedd yn gadarnhaol i alluogi

gweithio mewn partneriaeth llwyddiannus.

11.5 Mae partneriaid a budd-ddeiliad allanol, gan gynnwys y trydydd sector, eisiau bod yn rhan o waith y Cyngor.

3.	**Dylai'r Cyngor ystyried y cyfleoedd i wneud mwy o weithio mewn partneriaeth.** Mae gan y Cyngor berthnasoedd gwaith da gydag awdurdodau lleol cyfagos, yn enwedig gyda Phowys yn cefnogi myfyrwyr gofal cymdeithasol, ac, i raddau llai, gyda Sir Gâr a Sir Benfro. Efallai y bydd mwy o gyfleoedd i gynnig gwasanaethau ar y cyd, a dylid ystyried mwy ar hyn, yn enwedig darparu gofal cymdeithasol.

11.6 Mae dwyieithrwydd a'r gallu i fyw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gyson yn gadarnhaol. Roedd cyfraniad "Fforwm Iaith", fforwm y Gymraeg, yn rhoi sicrwydd cadarnhaol o ymrwymiad y Cyngor i wasanaeth dwyieithog.

12.0 I ba raddau y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol.

12.1 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n effeithiol; ond mae'n wynebu heriau tebyg i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Prif bryder y Panel oedd datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol fel y nodwyd isod – o ran y goblygiadau ariannol a gweithredu'r gwasanaeth ei hun.

12.2 Mae nod y Cyngor o sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol cadarn erbyn 2027 i'w weld yn seiliedig i raddau helaeth ar raglen hyfforddiant sydd i gael ei darparu gan Brifysgol Aberystwyth; ond nid yw'r rhaglen hon yn cael ei chynnig eto felly mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni'r nod. Fodd bynnag, dylid nodi, tra oeddent ar y safle, nad oedd y Panel yn gallu deall yr holl drafodaethau a oedd wedi'u cynnal gyda'r Brifysgol yn llwyr gan nad oedd rhai unigolion ar gael. Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dystiolaeth o fentrau 'datblygu' ehangach ond roedd y gost uchel a defnyddio asiantaeth yn peri pryder, ac nid yw'r Awdurdod yn gallu manteisio ar Addewid Cymru Gyfan oherwydd atyniad lleol unigryw ar gyfraddau tâl penodol.

12.3 Dywedodd y Cyngor fod y cyfleoedd hyfforddiant cyfredol trwy'r Brifysgol Agored a Phrifysgolion allanol eraill; nid oes modd pennu faint o fyfyrwyr a fydd yn dychwelyd i Geredigion ar ôl ennill cymwysterau addas.

4.	**Mae angen brys i'r Cyngor edrych eto ar eu strategaeth bresennol ar gyfer recriwtio gwaith cymdeithasol gan feddwl a yw'n effeithiol ac ystyried opsiynau eraill.**

12.4 Mae'r egwyddor o "Clic", y ganolfan gyswllt gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag ymholiadau cychwynnol ar gyfer ystod o wasanaethau ar draws y Cyngor,

yn gadarn ac mae yn ei ddyddiau cynnar, ond clywsom o sawl ffynhonnell nad yw materion bob amser yn cael eu datrys yn amserol o safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth ac weithiau nid ydynt yn ymwybodol o'r canlyniad. Clywodd y Panel sylwadau bod Clic yn declyn trafferthus i aelodau etholedig sy'n gofyn am adborth, roeddent yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu o Swyddogion Arweiniol Corfforaethol yn unol â **phwynt 5** a nodwyd mewn print trwm isod. Mae materion tebyg mewn perthynas ag ymgynghoriadau; ond nid yw hyn yn unigryw i Geredigion. Mae egwyddor cysylltwyr cymunedol yr un mor gadarn fodd bynnag mae angen gwaith pellach i ddatblygu ei botensial – mae tystiolaeth nad yw'r rôl yn cael ei deall yn llawn.

5.	**Dylai'r Cyngor ystyried sut i fynd i'r afael â thema gyson o gyfathrebu aneffeithiol ar draws yr awdurdod, gan gynnwys Aelodau etholedig, ac yn enwedig gyda phartneriaid a phreswylwyr, ac effeithiolrwydd "Clic".**

13.0 I ba raddau y mae gan y Cyngor reolaeth effeithiol ar waith.

13.1 Daeth y Panel i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar y cyfan, ac mae'n credu y bydd y camau gweithredu a awgrymwyd ym mhwynt 13.5 yn cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu ei drefniadau presennol ymhellach.

13.2 Yn ddiweddar, roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith Llywodraethu trosfwaol newydd a oedd yn nodi ei drefniadau llywodraethu. Mae'n seiliedig ar y Fframwaith ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (CIPFA/ Solace, 2016) a'r saith egwyddor allweddol ar gyfer cyflawni llywodraethu da. Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 y Cyngor yn dangos sut yr oedd wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ar draws y saith egwyddor allweddol.

13.3 Mae gan y Cyngor Wasanaethau Democrataidd a threfniadau archwilio mewnol effeithiol, yn cynnwys cefnogaeth dda gan swyddogion.

13.4 Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda ar lefel Aelodau ac Uwch Swyddogion a chlywodd y Panel adborth cadarnhaol am berthnasoedd gweithio da rhwng Aelodau Gweithredol ac Uwch Swyddogion.

13.5 Mae'r Panel yn credu y byddai'r camau canlynol a awgrymir yn cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu ei drefniadau llywodraethu presennol ymhellach.

6.	**Mae yna rywfaint o ddatgysylltiad rhwng Aelodau'r Rhengoedd ôl a'r weithrediaeth/uwch dimau arwain ac mae angen mynd i'r afael â hynny.** Mae hyn yn y cyd-destun bod yr holl aelodau wedi ymrwymo i wasanaethu eu poblogaeth ac, i raddau helaeth maent yn "gadael eu "gwleidyddiaeth wrth y drws". Fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol i'r holl Aelodau, nid yn unig y rhai sydd a swyddi o fewn y weinyddiaeth.
7.	**Mae angen datblygu rhagor ar y perthnasoedd rhwng y swyddogaeth graffu a'r weithrediaeth.**

8.	**Mae'r system rheoli perfformiad yn gynhwysfawr ond mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.**

14.0 Cefnogaeth i wella

Os hoffech chi drafod unrhyw gefnogaeth arall i wella, cysylltwch â Jo Hendy, Pennaeth Gwella CLlLC.

15.0 Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Panel a CLlLC ddiolch i'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil am y gefnogaeth i gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ar y safle.

Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Diana Davies - Rheolwr Corfforaethol Partneriaeth a Pherfformiad

Rob Starr - Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil

Alison Hodgson – Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol

Sonia Davies – Cynorthwyydd Personol i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr